Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 16 Medi 2026, am 6.00pm.

PRESENNOL

Y Cynghorydd J. Butterfield YH MBE (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs E. M. Chard, Mrs S. L. Connolly, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Ms R. S. Roberts, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A Jones – Dirprwy Glerc y Dref

59. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Blakeley-Walker, Mrs D. L King, Mrs J. L. McAlpine, B. Mellor, D. Simmons a T. Thomas.

60. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan gynghorwyr unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Gwnaeth y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE ac A. R. James ddatgan buddiant personol yn eitem rhif 16 (Cyflwyniad: Canlyniad Ymgynghoriad Cyngor Sir Ddinbych ynghylch Pentre'r Plant a'r Cynigion Dilynol) gan eu bod yn aelodau o Fwrdd Pentre'r Plant Cyngor Sir Ddinbych fel aelodau'r ward, a gwnaethant aros yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorydd A. R. James hefyd ddatgan buddiant personol arall yn eitem rhif 17 (Cais gan Dwristiaeth Gogledd Cymru) oherwydd bod twristiaeth yn rhan o'i bortffolio blaenorol fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, ac arhosodd yn y cyfarfod, gan gymryd rhan yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr eitem.

61. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – WARD BODFOR

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai etholiad yn cael ei gynnal ar 1 Hydref, ond yn anffodus ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau gan Gyngor Sir Ddinbych. Bu'n rhaid ailhysbysebu'r swydd wag gyda dyddiad cau ar gyfer enwebiadau o ddydd Gwener, 18 Medi, am 4.00pm.

Bwriedir cynnal etholiad ar 15 Hydref.

62. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 17 Gorffennaf 2026 - Cofnodion rhifau 39-58

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 17 Gorffennaf 2026 - Cofnodion rhifau 5-8

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

63. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad yn y pecyn ac yn benodol at y digwyddiad codi arian 'Simply the Breast' y bu ynddo, a fu'n llwyddiant ysgubol.

Dywedodd y Dirprwy Faer ei fod wedi mwynhau'r holl ddigwyddiadau y bu ynddynt, yn enwedig y seremonïau codi baner.

Nododd un o'r aelodau pa mor brysur y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer, gan eu llongyfarch ar fynd i gymaint o ddigwyddiadau.

64. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU GORFFENNAF AC AWST 2026 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad yn y pecyn yn nodi'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Gorffennaf

Rhif taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
2259	BT	92.46	BT – offer Neuadd y Dref
2260	BT	378.00	BT – ffonau a band eang Neuadd y Dref
Amherthnasol	Tesco	3.00	Yswiriant ffôn symudol
Amherthnasol	Tesco	9.54	Ffôn symudol
2261	O2	57.60	Ffonau symudol
2204	Cyngor Sir Ddinbych	828.00	Treth Gyngor Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 4 o 10
2264	Staff Cyngor Tref y Rhyl	9,189.62	Tâl net mis Gorffennaf 2026 - 4 aelod o staff
2262	Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi	3,577.00	Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mehefin 2026
2263	Cyngor Sir y Fflint	2,776.35	Cyfraniadau i Gronfa Bensiwn – mis Mehefin 2026
2246	Siop Cyngor ynghylch Budd-daliadau	1,301.08	Taliadau am Swyddog Apeliadau – taliad 4 o 12
Amherthnasol	Tesco	3.00	Ffôn symudol
2281	BT	92.46	BT – offer Neuadd y Dref
	Cyfanswm y taliadau	**18,308.11**	

Categori	Disgrifiad	Swm £
Santander	Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod	256.44
Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi	Hawliad Treth ar Werth Chwarter 1 (mis Ebrill – mis Mehefin 2026)	5,870.74
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis	736.03
	Cyfanswm yr incwm	**1,783.15**

Awst

Rhif taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
2280	BT	378.00	BT – ffonau a band eang Neuadd y Dref
2282	O2	57.60	Ffonau symudol
2204	Cyngor Sir Ddinbych	828.00	Treth Gyngor Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 5 o 10
2293	Staff Cyngor Tref y Rhyl	9,189.41	Tâl net mis Awst 2026 - 4 aelod o staff
2291	Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi	3,577.39	Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Gorffennaf 2026
2292	Cyngor Sir y Fflint	2,776.35	Cyfraniadau i Gronfa Bensiwn – mis Gorffennaf 2026
2246	Siop Cyngor ynghylch Budd-daliadau	1,301.08	Taliadau am Swyddog Apeliadau – taliad 5 o 12
	Cyfanswm y taliadau	**18,107.83**	

Categori	Disgrifiad	Swm £
Santander	Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod	264.99
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis	789.04
Cyngor Sir Ddinbych	Praesept 2026/27 – taliad 2 o 3	193,333.33
	Cyfanswm yr incwm	**194,387.36**

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r adroddiadau.*

65. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

Rhif taleb	Cyflenwr	Manylion y cyflenwad	Swm £
2277	Archwilio Cymru	Ffi archwilio 2024/25	£258.85

2284	Zoom	Tanysgrifiad Zoom 26/27	£155.88
2285	Y Lleng Brydeinig	Torch	£58.50
2278	ADT Alarms	Gwasanaethu'r larymau yn swyddfa Neuadd y Dref	£240.47
2279	BK Plus Ltd (Sage & Co yn flaenorol)	Ffioedd cyflogres – mis Ebrill – mis Mehefin 2026	£119.04
2286	Canda Copier	Ffioedd llungopïwr	£120.00
2287	Keith Freeburn	Portread y Maer	£7.50
2289	Llewod y Rhyl a Phrestatyn	Dau docyn i ddigwyddiad ar 10 Hydref 2026 (i'r Maer a'i Chonsort)	£56.00
2290	Canda Copier	Ffi gweinyddu'r llungopïwr	£21.59
2294	Delwedd Ltd	MS Office 365 i R Wheatley	£216.62
2295	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Ffi aelodaeth flynyddol 2026/27	£80.00
2296	Y Swyddfa Bost	Costau postio cadwyn y Maer (a anfonwyd at y cyflenwir i'w drwsio)	£20.95
2297	Perham Prints	Baneri ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch blaenoriaethau'r Cyngor Tref	£47.70
2298	Ian Grant	Fframio portread y Maer 2026/27	£59.00
2299	Amazon	Fframlun	£10.49
2300	Amazon	Papur llungopïwr	£22.98
2304	James Hallam Insurance	Cynnydd yn y premiwm ar gyfer cadwyn y Maer	£73.98
2305	Sandra Williams	Ffioedd cyfieithu	£264.26
2306	Big Bear Promotions Ltd	Bagiau ar gyfer y digwyddiadau ymgynghori	£312.00
2307	Pens.com	Beiros wedi'u brandio ar gyfer y digwyddiadau ymgynghori	£233.98
2308	Morrisons	Cyflenwadau swyddfa	£18.65
2309	Catalyst Systems Ltd	Panda Anti-Virus i 5 defnyddiwr am dair blynedd	£516.00
2310	Catalyst Systems Ltd	Ffi gosod y rhaglen Panda Anti-Virus	£109.20
2311	Catalyst Systems Ltd	Contract cymorth blynyddol 2026/27	£1,729.15
2312	Canda Copying	Ffi gweinyddu'r llungopïwr	£21.59
2313	Canda Copying	Ffioedd llungopïwr	£120.00

2314a	Y Cynghorydd J Butterfield	Lwfans y Maer 26/27 – taliad 2 o 3 (llai ffi bancio £17.00)	£416.33
2314b	Y Cynghorydd J Butterfield	Lwfans Uwch Swydd 26/27 – taliad 2 o 3	£166.67
2315a	Y Cynghorydd W Price	Lwfans y Dirprwy Faer 26/27 – taliad 2 o 3	£133.33
2315b	Y Cynghorydd W Price	Lwfans Uwch Swydd 26/27 – taliad 2 o 3	£166.67
2316	Cronfa'r Maer – Banc Lloyds	Cyfraniad at ffioedd bancio (4 mis @ £4.25 y mis)	£17.00
2317	Catalyst Systems Ltd	Fox-It Pro – meddalwedd PDF (ar gyfer 5 defnyddiwr) – blynyddol	£619.20
2321	The Fun Experts	Artistiaid ar gyfer digwyddiad y Nadolig	£2,040.00
2322	Cyfrif Elusennol Maer Bae Colwyn	Dau docyn i ddigwyddiad hwyl elusennol ar 17 Hydref 2026	£16.00
	Cyfanswm Atodlen B		**£8,469.58**

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

66. GOLEUADAU NADOLIG

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad, yn cynghori'r aelodau, yn dilyn penderfyniad yr aelodau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf i ymestyn y cynllun goleuadau Nadolig yng nghanol y dref, ei bod wedi cyfarfod â Swyddog Goleuadau Stryd Cyngor Sir Ddinbych i adnabod pa bolion lamp fyddai'n addas i gynnal goleuadau Nadolig.

Roedd cyfanswm o 10 colofn ar gael ar Stryd y Farchnad a Stryd y Dŵr, gyda chost adnewyddu neu drwsio rhai o'r clociau a'r amseryddion yn y polion wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad (£1,027.34 + TAW).

Adroddodd y Clerc fod Blachere Illuminations (darparydd goleuadau Nadolig y Cyngor ar hyn o bryd) wedi cadarnhau fod y cynllun goleuadau yn parhau i fod ar gael a byddai'n costio £529.00 yr un + TAW, (£5,290.00 + TAW am 10), gan ddod â chyfanswm costau'r gwaith trwsio a'r goleuadau newydd i £6,317.34 + TAW, sy'n gyffyrddus o fewn y £41,000 a ddyrannwyd yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r adroddiad.*

67. EITEM ER GWYBODAETH: 'EIN RHYL'

Cyfeiriodd y Maer at y diweddariad a ddarparwyd gan y Bwrdd, a oedd y cyntaf o'r hyn a fyddai'n adroddiad misol i'r Cyngor Tref, er gwybodaeth i'r aelodau.

PENDERFYNWYD *derbyn y wybodaeth.*

68. EITEM ER GWYBODAETH: CARNIFAL Y RHYL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y neges e-bost yn y pecyn gan Gymdeithas Carnifal y Rhyl, yn diolch i'r Cynghorydd Keith Jones a'i wraig am gynorthwyo gyda chyflenwi biniau sbwriel a'r codi sbwriel drwy gydol y diwrnod. Diolchwyd hefyd i'r Maer a'i Chonsort am eu presenoldeb a'u cymorth yn beirniadu'r cystadlaethau a diolch i'r Cyngor Tref am roi tocynnau anrheg.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Cynghorydd Vicky Roberts a'i gŵr hefyd wedi bod yn bresennol ar y diwrnod i gynorthwyo gyda'r codi sbwriel.

PENDERFYNWYD *derbyn y neges e-bost.*

69. EITEM ER GWYBODAETH: BLAENORIAETHAU / YMARFER YMGYSYLLTU 'Y SGWRS FAWR'

Cyflwynodd Clerc y Dref drosolwg cryno o'r ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd dros gyfnod o bum niwrnod yn gynharach yn ystod y mis.

Cafwyd oddeutu 150 o sgyrsiau, wyneb yn wyneb ac ar-lein, a bod gwrando ar sut roedd pobl yn teimlo a'u dyheadau a'u syniadau wedi bod yn wirioneddol ddiddorol ac yn ddarn o waith gwerthfawr iawn.

Cydnabu fod mwyafrif yr hyn roedd pobl yn ei ddweud yn negyddol. Roedd pobl drwyddi draw yn siomedig, yn rhwystredig ac yn teimlo diffyg cysylltiad rhyngddynt a'r rhai mewn grym.

Roedd rhai sylwadau cadarnhaol, a oedd yn dda eu clywed, ond mae llawer o waith i'w wneud i wella.

Cynghorodd y Clerc y byddai'n cyflwyno adroddiad ffurfiol i gyfarfod y Cyngor ym mis Hydref, a fyddai'n ehangu ar y materion a godwyd ac yn awgrymu ffordd ymlaen i ddechrau ar raglen waith wedi'i thargedu, ac i gytuno ar ddyraniad cyllideb ar gyfer bob un o'r pedwar maes blaenoriaeth.

I gloi, mae'r meysydd gwaith y penderfynodd yr aelodau arnynt mewn gweithdy yn gynharach yn y flwyddyn yn ymddangos fel petaent yn cyd-fynd â'r hyn oedd gan bobl i'w ddweud ac roedd yr ymarfer ymgysylltu wedi eu gosod mewn trefn pwysigrwydd.

Diolchodd y Clerc i'r Cynghorwyr Ellie Chard, Keith Jones ac Andy Rutherford am gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu. Cytunodd y tri fod siarad â'r trigolion yn uniongyrchol y ffordd orau i fesur sut roedd pobl yn teimlo, a bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Cyngor Tref ystyried ei gynnal yn flynyddol.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad, gyda diolch enfawr i swyddogion y Cyngor.*

70. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG ARFAETHEDIG I STOPIO LLWYBR TROED RHIF 12 YN Y RHYL

Adroddodd y Maer y derbyniwyd y neges e-bost ynghlwm a'r map yng nghyswllt stopio'r llwybr troed, i'r aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo stopio'r llwybr troed.*

71. SESIWN HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

72. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

73. EITEM ER GWYBODAETH: DIWEDDARIAD YNGHYLCH DIGWYDDIADAU'R NADOLIG

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad mewn cyfrinachedd i'r aelodau ynghylch y cynnydd o ran trefnu digwyddiadau'r Cyngor Tref, canlyniad yr hysbysiad ar GwerthwchiGymru ac argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.

PENDERFYNWYD *derbyn y wybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion.*

74. CYFLWYNIAD: CANLYNIADAU YMGYNGHORIAD CYNGOR SIR DDINBYCH YNGHYLCH PENTRE'R PLANT A'R CYNIGION DILYNOL

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad cyfrinachol yn y pecyn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi, Cyngor Sir Ddinbych, Mr Tony Ward, a chroesawodd ef a'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd, Mr Mike Jones, i'r cyfarfod.

Amlinellodd Mr Ward y cynigion ar gyfer digwyddiad cerddoriaeth ym Marchnad y Frenhines yn y Rhyl yn 2027 i helpu i sefydlu'r lleoliad fe lle da ar gyfer cerddoriaeth fyw i fandiau newydd ac wedi hen ymsefydlu berfformio, a'r manteision potensial i'r economi leol.

Roedd y cynnig ar gyfer un noson yn cynnwys elfen 'Brwydr y Bandiau', i roi'r cyfle i fandiau lleol chwarae a rhannu'r llwyfan ag artistiaid mwy adnabyddus.

Cyflwynwyd cynnig ar gyfer gŵyl gerddoriaeth am bum noson yn ddiweddarach yn ystod 2027 i'r aelodau.

Aeth Mr Ward a Mr Jones ymlaen i ddiweddaru'r aelodau ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ynghylch y cynigion i uwchraddio ardal Pentre'r Plant, gan ddefnyddio £5.5 miliwn o danwariant ar Gynllun Amddiffynfeydd Morol Canol y Rhyl.

Un o amodau'r tanwariant oedd bod yr arian yn cael ei wario ar brosiect yng nghyffiniau'r gwaith amddiffynfeydd morol, ac roedd yn gyfle i ailddylunio ac agor yr ardal i'w ailgysylltu â'r traeth a chanol y dref.

[Gadawodd y Cynghorydd Miss C. L. Williams y cyfarfod am 7.50pm.]

Ar ôl ateb cwestiynau'r aelodau, diolchwyd i'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac aethant er mwyn galluogi'r aelodau i gynnal rhagor o drafodaethau. Yn dilyn ei roi i'r bleidlais, ***PENDERFYNWYD***:

(i) *Cymeradwyo'r cyllid cychwynnol o £15,000 + TAW fel cyfraniad tuag at ddigwyddiad un noson ym mis Ionawr.*

(ii) *Cymeradwyo'r cyllid cychwynnol o £25,000 + TAW fel cyfraniad tuag at ŵyl gerdd bum noson yn ddiweddarach yn ystod 2027 mewn egwyddor.*

[Gadawodd y Cynghorydd R. Roberts y cyfarfod am 8.25pm.]

75. CAIS GAN DWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad mewn cyfrinachedd yn y pecyn gan Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych, yn dilyn cais gan Dwristiaeth Gogledd Cymru i alluogi Canolfan Croeso'r Rhyl i barhau ar agor rhwng mis Hydref 2026 a mis Mawrth 2027 ar gost o £16,200.

Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at argymhellion yr is-bwyllgor i'r aelodau eu hystyried.

PENDERFYNWYD *fod yr aelodau'n cymeradwyo'r argymhellion a chymryd taliad dechreuol o £8,100 o'r gyllideb a ddyrannwyd.*

76. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……..

Dyddiad: ……..……..